



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Cydweithio er budd manwerthu: cynllun gweithredu fforwm manwerthu Cymru

Sut y byddwn yn cefnogi'r sector manwerthu yng Nghymru.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Mai 2023

Diweddarwyd ddiwethaf: 16 Mai 2023

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Rhagair

Adran 1: Cyflwyniad

Adran 2: Camau gweithredu

Adran 3: Monitro a gwerthuso

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Rhagair

Mae'r **Weledigaeth Strategol a Rennir ar gyfer y Sector Manwerthu** (Gweledigaeth) yn disgrifio uchelgais y llywodraeth hon i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i barhau i adeiladu sector manwerthu mwy cadarn sy'n darparu ar gyfer cymunedau, busnesau a gweithwyr. Mae partneriaeth gymdeithasol yn ffordd lwyddiannus o weithio yng Nghymru sy'n ein galluogi i ddatblygu dulliau o weithredu a rennir ar gyfer heriau a chyfleoedd ar y cyd. Mae dod â phartneriaid at ei gilydd yn meithrin ymddiriedaeth, yn annog dealltwriaeth ac yn ein helpu i ddatrys problemau mewn ffyrdd sy'n sicrhau manteision i bawb.

Mae'r weledigaeth hon ar gyfer y sector manwerthu yn adlewyrchu ein deialog barhaus o fewn ac ynghylch y sector a'n perthynas waith agos â phartneriaid a rhanddeiliaid cymdeithasol. Mae dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o bwysigrwydd y sector manwerthu i'n heconomi a'n cymdeithas wedi'i wreiddio'n gadarn a bydd yn cael ei adlewyrchu wrth ddatblygu polisiau yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo o hyd i sgwrs barhaus, drwy'r Fforwm Manwerthu, i lunio ein hymateb i heriau a chyfleoedd nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn ar gyfer Manwerthu (Cynllun) yn adeiladu ar gyhoeddiad y Fforwm o'i weledigaeth strategol a rennir ac mae'n dod ar adeg pan fydd y sector yn wynebu newid sylweddol sy'n effeithio ar weithrediadau busnes, y gweithlu, ymddygiad defnyddwyr a'r cyd-destun a'r rhagolygon economaidd ehangach. Mae gorliwio'r materion hynny'n arwain at argyfwng costau byw a chostau gwneud busnes, gyda'r holl ansicrwydd a ddaw yn ei sgil.

Er bod y Cynllun hwn yn nodi camau ymarferol y byddwn yn eu cymryd, mae'n gwneud hynny yn erbyn cyd-destun cyfnewidiol a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni aros yn ystwyth ac yn ymatebol i amgylchiadau sy'n esblygu. Dyna pam y byddwn yn parhau i adolygu'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn, gan gynllunio mesurau dros y ddwy flynedd nesaf wrth i ni barhau i ymgysylltu â'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Fforwm Manwerthu a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill yn y diwydiant er mwyn deall yn well y pwysau sy'n wynebu busnesau a gweithwyr manwerthu, a datblygu ymatebion priodol.

Nid ydym yn esgus bod y Cynllun hwn yn cynnwys yr holl atebion, ond rydym yn disgwyl iddo gyfrannu at helpu'r sector manwerthu yng Nghymru i wrthsefyll yr heriau uniongyrchol sydd o'n blaenau ac i wynebu'r dyfodol yn fwy hyderus.

Llofnodwyd gan:

Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS

Y Dirprwy Weinidog dros Bartneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn AS

Mewn partneriaeth ag aelodau'r Fforwm Manwerthu.

Adran 1: Cyflwyniad

Roedd y **Weledigaeth Strategol a Rennir** ar gyfer y sector, a lansiwyd yn 2022, yn amlinellu'r cyfraniad pwysig iawn y mae'r sector manwerthu yng Nghymru yn ei wneud i'r economi ac i gymunedau Cymru. Mae'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatblygu dull Llywodraeth Cymru o adeiladu economi llesiant, sy'n ceisio mesur iechyd economaidd ein cenedl drwy ystyried pa mor deg (**Canllaw i waith teg**), amgylcheddol gynaliadwy a chadarn yw'r sector.

Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd gamau gweithredu allweddol sy'n cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth. Mae hefyd yn cydnabod bod y sector manwerthu yn amlochrog ac mae angen dull partneriaeth gymdeithasol (Mae Partneriaeth Gymdeithasol yn ffordd o weithio yng Nghymru, sy'n dod â'r llywodraeth, busnesau ac undebau llafur at ei gilydd i fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu a gwella canlyniadau i bobl Cymru.) lle mae llywodraeth, manwerthwyr ac undebau llafur yn gweithio gyda'i gilydd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Y sector manwerthu yw'r cyflogwr sector preifat mwyaf yng Nghymru (Mae'r sector iechyd yn cyflogi mwy o bobl ond mae'n cael ei dybio bod cyfran fawr o gyflogaeth ym maes iechyd yn y sector cyhoeddus), yn darparu swyddi i 139,000 o bobl yn 2021 (Mae cyflogaeth yn y sector manwerthu yn dod o'r Gofrestr Busnes a'r Arolwg Chyflogaeth (BRES) ONS blynyddol. Mae'r ffynhonnell hon yn gallu darparu data ar lefel berthnasol y diwydiant i ddisgrifio'r sector manwerthu yn briodol. Mae BRES yn cynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi a'r rheini sy'n hunangyflogedig), gan gyfrannu 5.7 y cant o allbwn economaidd Cymru (Gwerth Ychwanegol Gros) yn 2021 a chwarter y sylfaen drethu Ardrethi Annomestig yng Nghymru yn 2023, sydd i gyd yn dangos ei bwysigrwydd i'r economi yng Nghymru. Mae'r sector yn allweddol o ran darparu cyfleoedd cyflogaeth, mae'n hanfodol i fywiogrwydd canol ein trefi yn y dyfodol ac mae'n cael ei gydnabod am y cyfraniad gwerthfawr y mae siopau cyfleustra bach yn ei wneud yn ein cymunedau gwledig drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol eraill (Association of Convenience Stores; Adroddiad Siopau Lleol Cymru 2023).

Mae'r sector manwerthu yn wynebu cyfnod o heriau a newidiadau sylweddol, sy'n effeithio ar bob rhan o'r sector, ei weithlu a'i gwsmeriaid. Mae maint a chyflymder y materion hyn yn golygu bod y Cynllun hwn yn targedu camau gweithredu allweddol y gellir eu cyflawni neu eu datblygu'n sylweddol o fewn y ddwy flynedd nesaf. Nid yw'r cyd-destun y mae'r sector manwerthu yn gweithredu ynddo yn sefyll yn ei unfan ac nid oes raid i'r Cynllun hwn ychwaith. Dyna pam rydym yn ymrwymo i werthuso effaith y Cynllun ar ddiwedd y cyfnod hwn o ddwy flynedd ac i adnewyddu ei uchelgeisiau a'i gamau gweithredu fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn helpu i gadw'r Cynllun yn berthnasol, yn gadarn ac yn realistig.

Nid yw'r Cynllun yn gweithredu ar wahân i'n gwerthoedd ehangach ac mae'n gweithio ar draws Llywodraeth Cymru. Dyna pam mae'r Cynllun yn ategu gwaith i drawsnewid canol ein trefi, cefnogi busnesau i newid i sero net, hwyluso datblygu sgiliau a darparu cymorth ardrethi busnes.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Adran 2: Camau gweithredu

Prif ffocws y Cynllun hwn yw rhoi llais i'r sector o ran cyflawni camau gweithredu sydd â'r nod o wella rhagolygon y sector manwerthu a'r rheini sy'n gweithio ynddo. Bydd y Cynllun yn cael ei ailystyried ar ddiwedd dwy flynedd i asesu cynnydd ac i bwysu a mesur pa mor addas yw'r camau gweithredu, er mwyn sicrhau eu bod yn mynd bob yn gam â'r sefyllfa bresennol, gan adlewyrchu'r materion presennol sy'n effeithio ar y sector manwerthu ac yn ystyried yr economi.

Mae'r Cynllun yn nodi camau gweithredu allweddol yn erbyn y tair colofn allweddol a nodwyd yn y Weledigaeth Strategol a Rennir - Pobl, Lle, Cydnerthedd - ac mae'n nodi mesurau i helpu i asesu effaith y camau hyn, eu canlyniadau, a'u heffeithiolrwydd o ran bwrw ymlaen â'r Weledigaeth Strategol a Rennir.

Mae'r camau gweithredu allweddol yn adlewyrchu'r hyn y gall y llywodraeth a phartneriaid ei roi ar waith yn ymarferol yng ngoleuni'r adnoddau a'r dulliau sydd ar gael iddynt ac o fewn yr amserlen a nodir yn y Cynllun.

Mae'r asesiad o effaith ar gyfer y Cynllun hwn yn nodi rhagor o waith y bydd angen i ni a phartneriaid cymdeithasol ei wneud a dyna pam mae ymrwymiad i adolygu a gwerthuso, ynghyd â mesurau eraill i wneud mwy o waith ymchwil, wedi'i gynnwys yn y Cynllun.

Astudiaeth achos: IKEA a Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth

Mae IKEA wedi bod yn arwain y ffordd i ddatblygu cyfleoedd i integreiddio ffoaduriaid i'r gweithlu. Mae'r rhaglen Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth UPPNÅ yn gweithio mewn partneriaeth gref â Chanolfannau Cynghorau Ffoaduriaid ledled y DU ac yn Iwerddon i gynnig cymorth, cyngor a lle i ffoaduriaid ddod at ei gilydd

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yn y gymuned leol.

O Syria i Wcráin, mae IKEA wedi dod o hyd i ffyrdd o ddod â ffoaduriaid i gyflogaeth. Drwy'r rhaglenni gwella sgiliau a gwaith hyn sy'n canolbwyntio ar ffoaduriaid, gall y rheini sy'n chwilio am gymorth gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys ysgrifennu CV, cymorth i wneud cais am swydd, technegau cyfweld a hyfforddiant gwasanaeth i gwsmeriaid, yn ogystal â chyflwyniad i ddiwylliant a gwerthoedd IKEA, a deall marchnad lafur Cymru a'r DU.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae IKEA Caerdydd wedi darparu cynnyrch a chymorth o'r siop i drawsnewid Canolfan Cyngor Ffoaduriaid Cymru. Treuliodd tîm o fwy na 30 o gydweithwyr IKEA bythefnos yn uwchraddio'r gofod, gyda'r dderbynfa, ystafelloedd cwnsela, cegin fach, swyddfeydd a thoiledau i gyd yn cael gweddnewidiad.

Mae hyn i gyd wedi trawsnewid bywydau pobl sy'n dechrau gweithio gan greu bywyd newydd ar yr un pryd â rhoi'n ôl i'r gymdeithas, ac mae'n dod â chenhadaeth IKEA yn fyw drwy gefnogi bywyd bob dydd gwell i lawer o bobl.

Colofn 1: Pobl

Gweledigaeth:

- Mae manwerthu yn dod yn gyfystyr â gwaith teg i bawb"
- Gall pobl gael gyrfaedd da a diogel yn y sector, mewn amgylchedd gwaith teg
- Rhoi'r gorau i fabwysiadu partneriaeth gymdeithasol fel y ffordd orau o weithio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Canlyniadau disgwylidig:

- Mae mwy o weithwyr manwerthu mewn undeb llafur ac maent yn dod o dan drefniadau cytundebol sy'n rhoi mwy o sicrwydd o ran cyflogaeth, oriau gwaith ac incwm.
- Mae mwy o fusnesau manwerthu yn aelodau o sefydliad sy'n cynrychioli masnach neu fusnes perthnasol.
- Mae egwyddorion gwaith teg wedi'u gwreiddio ar draws mwy o'r sector ac mae mwy o weithwyr yn cael eu gwobrwyo'n deg.
- Mae mwy o weithwyr manwerthu yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau ac mae llwybr clir i ddatblygu gyrfaedd manwerthu yn cael ei hyrwyddo a'i ddeall.
- Mae'r sector yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu ar bob lefel.
- Mae manwerthwyr yng Nghymru yn deall budd ac yn cytuno i fod yn rhan o'r Contract Economaidd a'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

Camau gweithredu:

- Datblygu cynllun cyfathrebu sy'n hyrwyddo'r sector manwerthu, y gyrfaedd sydd ar gael ynddo a'r manteision i fanwerthwyr fod yn aelod o sefydliad sy'n cynrychioli masnach neu fusnes perthnasol.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru/ Corff Cynrychioli Busnesau
- Datblygu cynllun cyfathrebu sy'n codi ymwybyddiaeth o rôl undebau llafur ac sy'n hyrwyddo manteision gweithwyr manwerthu sy'n ymuno ag undeb llafur.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru/ Undebau Llafur
- Gweithio gyda Cynnal Cymru (partneriaid y Sefydliad Cyflog Byw yng Nghymru) i edrych ar opsiynau ar gyfer hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

i'r sector manwerthu.

- Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru (Fforwm Manwerthu)
- Cynhyrchu canllawiau ar les, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer y sector, gan gyfeirio at adnoddau presennol (e.e. **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | Retail Trust**) ac astudiaethau achos arferion gorau.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: ACS/Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC)
- Hyrwyddo argaeledd Cynlluniau Llywodraeth Cymru – fel cyngor lechyd Cyhoeddus Cymru ar iechyd meddwl a gwaith teg.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Fforwm Manwerthu / TUC
- Codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ar gyfer gyrfaedd ym maes manwerthu, cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu medrus gan ddefnyddio cynlluniau presennol Llywodraeth Cymru fel Cyfrifon Dysgu Personol a'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg a rhannu arferion gorau o bob rhan o'r sector o ran datblygu'r gweithlu.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Fforwm Manwerthu/ Llywodraeth Cymru
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth a defnydd o gynlluniau cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru i godi lefelau cyflogaeth ar draws y sector e.e. drwy'r porth Cymru'n Gweithio a gweithgarwch Gwarant i Bobl Ifanc.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru a Fforwm Manwerthu
- Defnyddio sianeli cyfathrebu'r Warrant i Bobl Ifanc, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth o ehangder cyfleoedd gyrfa yn y sector manwerthu.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Fforwm Manwerthu (Llywodraeth Cymru)
- Mapio'r hyfforddiant a'r sgiliau sydd ar gael yn y sector ac asesu pa mor addas ydyw.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru (Fforwm Manwerthu)
- Comisiynu adolygiad llenyddiaeth neu ymchwil i ddeall yn well beth yw'r rhwystrau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth i bobl sy'n cael eu cyflogi mewn siopau.
 - Llywodraeth Cymru ac Undebau Llafur
- Annog a hyrwyddo gwaith Partneriaeth Gymdeithasol.
 - Llywodraeth Cymru, Fforwm Manwerthu ac Undebau Llafur
- Busnes Cymru i ddarparu mynediad i fusnesau manwerthu at amrywiaeth eang o gyfeiriadau, gwybodaeth, arweiniad a chymorth busnes perthnasol drwy Linell Gymorth Busnes Cymru a sianeli digidol.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru/ Fforwm Manwerthu
- Busnes Cymru i ddarparu cymorth pwrpasol i fusnesau manwerthu i'w helpu i gychwyn a thyfu eu busnesau, gan gynnwys cyngor busnes cyffredinol, cydraddoldeb ac amrywiaeth, effeithlonrwydd adnoddau, sgiliau, caffael, mentora ac ecsbloetio digidol.
 - Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru/ Fforwm Manwerthu

Astudiaeth achos: Marks a Start, Chwalu rhwystrau i waith, trawsnewid dyfodol pobl

Mae Luna Cummings yn un o 250 o recriwtiaid newydd a fydd yn dechrau ar yrfa newydd gyda Marks and Spencer yn dilyn lleoliad pedair wythnos drwy'r

Rhaglen Marks and Start.

Mae Marks and Start yn rhan o bartneriaeth Canolbarth a Gorllewin Lloegr gyda The Prince's Trust ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a chreu cyfleoedd gwaith newydd ledled y DU. Mae Luna yn un o dros 10,000 o bobl ifanc sydd wedi cwblhau'r rhaglen Marks & Start ers 2013.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae Luna yn fenyw drawsryweddol sydd wedi cael trafferth gyda'i hyder a siarad â phobl ers oedd hi'n ifanc. Gwnaeth gais i'r rhaglen Marks & Start gan ei bod yn gobeithio y byddai'n rhoi cyfle iddi ddysgu sgiliau newydd, datblygu ym maes manwerthu a lletygarwch, a magu ei hyder personol.

Dywedodd:

“ Fe wnes i wneud cais am y rhaglen Marks & Start gan fy mod i'n dod allan o le tywyll iawn, ac rydw i mor ddiolchgar fy mod i wedi gwneud hynny. Rwy'n teimlo ganwaith gwell erbyn heddiw ac mae hynny oherwydd y ffaith fy mod i wedi cael fy nerbyn yn rhan o'r Rhaglen hon.

“ Roeddwn i wedi gweithio ym maes lletygarwch o'r blaen, felly roeddwn i'n edrych ymlaen at gael lleoliad yng nghaffi M&S yn siop Culverhouse Cross ar ôl cael fy nerbyn. Er ei fod yn brysurach na'r caffis blaenorol roeddwn i wedi gweithio ynddyn nhw, roeddwn i'n teimlo'n fwy hyderus mewn dim, ac o fewn ychydig wythnosau roeddwn i'n hapus i sgwrsio â chwsmeriaid wrth i mi glirio eu byrddau a'u helpu gydag unrhyw beth roedden nhw eisiau. Tuag at ddiwedd fy lleoliad, cefais hyfforddiant ar sut i wneud coffi. Roeddwn i'n nerfus cyn gwneud hyn, ond ar ôl i mi ddechrau cael canmoliaeth ar y coffi roeddwn i wedi'i wneud, roeddwn i'n falch iawn.

“ Fel menyw drawsryweddol, rydw i wrth fy modd fy mod wedi dod o hyd i rywle y gallaf fod yn fi fy hun – y Luna go iawn. Am y rheswm hwn, byddwn yn argymhell y Rhaglen Dechrau'n Deg i unrhyw un arall sy'n cael trafferth dod o hyd i waith neu sy'n chwilio am leoliad lle gallant ddatblygu yn y gweithle. ”

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Colofn 2: Lle

Gweledigaeth:

Gwreiddio'r polisi Canol Trefi yn Gyntaf, yng nghynllun datblygu cenedlaethol Cymru'r Dyfodol.

Canlyniadau disgwylidig:

- Lleihau adeiladau gwag yng nghanol ein trefi.
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr i safleoedd manwerthu yng Nghymru
- Lleihau cost gyffredinol ardrethi annomestig i fusnesau cymwys yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden yn 2023
- Mabwysiadu'r polisi Canol Trefi yn Gyntaf wrth gynllunio, gyda chaniatâd i gyflwyno datblygiadau sy'n cyd-fynd â pholisïau.

Camau gweithredu:

1. Cyflawni'r ymrwymadau a amlinellwyd yn **Cymru'r Dyfodol** yn 2021: Cefnogi'r camau gweithredu a nodwyd ym mholisïau Canol Trefi yn Gyntaf, gan gynnwys annog lleoli ac adleoli gwasanaethau cyhoeddus i ganol trefi.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru
2. Cryfhau gweithrediad y polisi Canol Trefi yn Gyntaf wrth gynllunio a grymuso cynllunwyr lleol i wrthod datblygiadau nad ydynt yn bodloni'r polisi ac i gynnig cynlluniau newydd ar gyfer aildefnyddio datblygiadau y tu allan i drefi mewn modd addasol.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru (Fforwm Manwerthu)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

3. Parhau i gefnogi busnesau drwy ryddhad ardrethi, gan gynnwys:
 - a. Rhewi'r lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer 2023-24
 - b. Agor cynllun i gefnogi'r broses o drosglwyddo trethdalwyr sy'n wynebu mwy o rwymedigaeth ardrethi yn 2023-24 oherwydd ailbrisiad 2023.
 - c. Darparu rhyddhad ardrethi annomestig i fusnesau cymwys yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden yng Nghymru. Bydd busnesau cymwys yn cael rhyddhad ardrethi annomestig o 75% ar gyfer 2023-24.
 - i. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru
4. Gweithio gyda manwerthwyr sydd â meysydd parcio mawr i archwilio ffyrdd o ddefnyddio'r mannau hyn at ddefnydd cymunedol/defnydd arall a rhannu arferion gorau.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Fforwm Manwerthu
5. Hyrwyddo astudiaethau achos a gwersi a ddysgwyd gan fanwerthwyr cadwyni sydd wedi helpu cynaliadwyedd a thwf canol trefi yn y tymor hir.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Fforwm Manwerthu
6. Cefnogi ac annog partneriaethau manwerthu presennol fel BIDS, y Siambrau Masnach a Chyngor Ffoaduriaid Cymru i gydweithio'n well i hyrwyddo digwyddiadau canol trefi/ar y stryd fawr a hyrwyddo "Mae pob tref yn dref farchnad" a marchnadoedd lleol.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Awdurdodau Lleol
7. Cefnogi awdurdodau lleol i ganfod adeiladau gwag a chyfateb busnesau iddynt neu eu hannog i'w defnyddio at ddibenion cymunedol neu ddibenion gwerth chweil eraill.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru/ Awdurdodau Lleol
8. Cefnogi busnesau manwerthu i gynyddu eu cynnig digidol a defnyddio'r data sydd ar gael yng nghanol trefi i wella perfformiad masnachu a bywiogrwydd canol trefi. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo apiau siopa ac apiau canfod y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ffordd yng nghanol y dref.

- a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu: Llywodraeth Cymru/Rhaglen Trefi Smart/ BIDS/Grwpiau Busnes Cydweithredol

Astudiaeth achos: Trudy Davies, Perchennog Woosnam a Davies News, Llanidloes

Dechreuodd Trudy Davies, perchennog Woosnam a Davies News yn Llanidloes, weithio i siop manwerthu annibynnol pan oedd hi'n 17 oed. Aeth Trudy ymlaen i fod yn berchen ar ei busnes ei hun sydd wedi tyfu i fod yn ganolog i'r gymuned yn nhref canolbarth Cymru ac mae wedi cael ei chydabod gyda sawl gwobr o bob rhan o'r sector ac ymysg buddiannau cymunedol.

“ Mae Trudy wastad wedi bod yn frwdfrydig dros les unigolion a'r gymuned o'i chwmpas. 'Mae'r bobl a'r busnesau yn Llanidloes fel cwilt clytwaith ac rwy'n gweld fy musnes fel un o'r ardaloedd hynny. Mae busnesau manwerthu bach fel fy un i yn llawer mwy na lleoedd i brynu pethau. Maen nhw'n fannau cyfarfod, mae lleoedd yn cwrdd â chymdogion, canolfannau i drefnu digwyddiadau ac i helpu i ddarparu gwasanaethau cymunedol sy'n bwysig i bobl. Rydym bob amser yn gofalu am gwsmeriaid rheolaidd a'u lles. Yn aml, ni yw'r cyntaf i sylwi os nad yw rhywun wedi cael ei weld ers tro ac rydym yn gofalu amdanynt. ”

Mae Woosnam a Davies News wrth galon llawer o gynlluniau lleol. Mae hynny'n cynnwys cefnogi gwaith ei Changen leol o'r Lleng Brydeinig Frenhinol, gosod man ailgylchu e-sigaréts yn ei safle, trefnu cyfnewid jig-so a phrynu a rhoi Pecyn Rheoli Gwaedu 24/7 cyntaf Cymru yn ei chymuned.

“ Gall manwerthu fod yn anodd ar adegau ac mae ein strydoedd a'n trefi mawrion yn cael eu herio'n fawr felly mae angen eu cefnogi. Rwy'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

dibynnu ar bawb a phob busnes o'm cwmpas, ac mae angen busnes bywiog arnom i ddod â'r swyddi a fydd yn cadw pobl yn eu cymunedau ac yn helpu i'w cefnogi. Mae busnesau manwerthu lleol bach yn aml yn cefnogi busnesau eraill mewn proffesiynau masnach a chyflenwyr lleol eraill. ”

Colofn 3: Cydnerthedd

Gweledigaeth:

- Mae sicrhau bod manwerthwyr o bob maint yn barod ar gyfer y newid i sero net yn flaenoriaeth allweddol wrth wireddu ein gweledigaeth ar gyfer y sector.
- Cyn belled ag y bo'n ymarferol, dylid defnyddio safleoedd manwerthu i hyrwyddo Bioamrywiaeth.
- Mae'r cynnydd hwn mewn troseddau manwerthu yn niweidiol i'r sector ac i les y gweithlu.

Canlyniadau disgwylidig:

- Mae'r sector manwerthu'n symud yn gyflym tuag at gyflawni sero net gyda dros 50% o adeiladau yng Nghymru ar sero net cyn 2030.
- Gall gweithwyr yn y sector manwerthu weithio heb ofni cael eu cam-drin neu ddioddef trais, gyda nifer y digwyddiadau a gofnodir yn gostwng o un flwyddyn i'r llall.
- Mae manwerthwyr yn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran hygyrchedd ac yn diwallu anghenion pob defnyddiwr.
- Mae cadwyni cyflenwi manwerthu yn foesebol ac yn gyfrifol a, lle bo'n bosibl, yn cael eu cwtdogi i leihau print troed byd-eang y sector.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Camau gweithredu:

1. Archwilio opsiynau i gefnogi safleoedd busnesau bach i ddefnyddio ynni adnewyddadwy a mentrau datgarboneiddio fel y rheini yn y troednodyn:
 - a. ôl-osod drysau ar oergelloedd a rhewgelloedd i leihau ôl-troed carbon
 - b. newid goleuadau i ddefnyddio goleuadau LED
 - c. gosod insiwleiddiad / mesurau atal drafftiau i arbed costau ynni
 - d. gosod pŷmpiau solar a/neu wres (y ddaear neu ffynhonnell aer) lle bo hynny'n bosibl
 - e. defnyddio cerbydau trydan lle bo hynny'n bosibl
 - i. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:
2. Codi ymwybyddiaeth o anabledd a materion mynediad eraill yn yr amgylchedd manwerthu a rhannu arferion gorau i alluogi gweithredu ar y cyd i ddatrys y rhain.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:
3. Hyrwyddo'r ymgyrch "Byddwch yn Garedig" ym maes manwerthu i greu amgylchedd gwaith gwell i weithwyr. Ystyried ymchwil ehangach i ddeall agweddau defnyddwyr tuag at weithwyr manwerthu.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:
4. Datblygu adnoddau i godi ymwybyddiaeth o gynlluniau ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio, gan gynnwys ystyried prosiect stryd werdd yng Nghymru a chynllun peilot cynhyrchu ynni mewn parc manwerthu.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:
5. Cynhyrchu a rhoi cyhoeddusrwydd i astudiaethau achos o'r arferion gorau y mae'r sector wedi'u cymryd i'w datgarboneiddio.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:
6. – Gweithio gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill fel yr heddlu, Ardaloedd Gwella Busnes a chynghorau lleol i sefydlu mwy o bartneriaethau a chynlluniau troseddau busnes a hyrwyddo ymgyrchoedd i fynd i'r afael â throseddau manwerthu er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd a busnesau llai.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:
- 7. Darparu enghreifftiau o arferion gorau o'r hyn y gall busnesau ei wneud i helpu gweithwyr gyda'r argyfwng costau byw.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:
- 8. Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r **Cynllun Manwerthu a Gwasanaeth Bwyd** i ddarparu cymorth i fanwerthwyr bwyd. Datblygu rhaglenni partneriaeth gyda manwerthwyr bwyd/darparwyr gwasanaethau bwyd mawr sy'n hyrwyddo Brand Cymru a sector Bwyd a Diod Cymru.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:
- 9. Rhannu gwybodaeth wrth i'r cynllun dychwelyd ernes ddatblygu. Bydd y cynllun yn mynd i'r afael â sbwriel, yn annog ailgylchu, ac yn gallu denu ymwelwyr pan fydd cwsmeriaid yn dychwelyd cynwysyddion. Bydd hefyd yn ymgymryd â gwaith ymchwil i ddeall y ffordd orau o dargedu defnyddwyr i ddychwelyd i ganol y dref. Datblygu mesurau i hyrwyddo'r neges i siopa'n lleol ac i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector.
 - a. Camau Gweithredu Perchnogion/Cyfranwyr at weithredu:

Astudiaeth achos: Building resilience in the retail sector

Mae Asda wedi lleihau ei allyriadau carbon tua 175,000 tonnall drwy newid i ddefnyddio tryciau sy'n rhedeg ar fio-nwy yn ei ddepo yng Nghas-gwent ac mae'n bwriadu newid ei holl faniau danfon i gartrefi i redeg ar drydan.

Datgarboneiddio gwaith danfon

Mae Asda eisoes yn rhedeg y fflyd fio-nwy fwyaf y DU gyda 575 o lorïau ac mae'n bwriadu ei chynyddu i bron 1,000 o lorïau a lansio 10 gorsaf fio-nwy arall erbyn 2024. Mae'r tryciau hyn yn cael eu defnyddio ar draws 42 o'i rwydweithiau dosbarthu cenedlaethol gan gynnwys y depo yng Nghas-gwent sydd eisoes â gorsaf fio-nwy ac yn cludo nwyddau i 45 o siopau yng Nghymru.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae Asda yn trawsnewid danfoniadau i'r cartref, o ddiesel i drydan. Mae'r busnes am drosi pob un o'i 3,000 o faniau danfon i fod yn rhai trydan erbyn 2028, gan fuddsoddi cyfalaf hefyd mewn mannau gwefru yn y siopau. Caiff y faniau eu defnyddio i ddanfon nwyddau o siopau i gartrefi bob dydd ledled y DU, gan gynnwys yng Nghymru.

Mae Boots, y manwerthwr iechyd a harddwch mwyaf yn y DU, yn cydnabod ei gyfrifoldeb i leihau gwastraff a chefnogi defnyddwyr i fabwysiadu ffyrdd mwy cynaliadwy o fyw. Ym mis Medi 2020, lansiodd Boots gynllun dychwelyd newydd – Recycle at Boots – i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid roi ail fywyd i ddeunydd pacio iechyd a harddwch sy'n anodd ei ailgylchu fel minlliwiau, mascara a thiwbiau past dannedd.

Mae Recycle at Boots ar gael mewn 700 o siopau gan gynnwys dros 30 o siopau ledled Cymru, sy'n golygu mai dyma'r cynllun mwyaf hygyrch o'i fath. Mae'r cynllun yn defnyddio technoleg Scan2Recycle arloesol sy'n seiliedig ar apiau i dracio ymddygiad cwsmeriaid, cynyddu tryloywder a gwobrwyo defnyddwyr.

Caiff cwsmeriaid eu hannog i ddychwelyd eitemau anodd eu hailgylchu – gan gynnwys pecynnau a chynhwysyddion nad ydynt yn cael eu prynu yn Boots – i finiau ailgylchu yn y siop. Mae blaendal o bum cynhwysydd gwag yn gwobrwyo cwsmeriaid gyda 500 o bwyntiau Boots Advantage Card pan fyddant yn gwario £10 mewn siop sy'n cymryd rhan: ateb sy'n golygu bod pawb ar ei ennill ac sy'n helpu'r amgylchedd, gan wobrwyo cwsmeriaid am wneud y peth iawn.

Ers lansio'r cynllun, mae dros 1 miliwn o eitemau wedi cael eu hadneuo gan 45,000 o ddefnyddwyr cofrestredig, sy'n golygu bod 20 tunnell o ddeunydd pacio a chynhwysyddion nwyddau anodd eu hailgylchu yn cael eu hailgylchu a fyddai fel arall wedi cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi.

Mae Recycle at Boots yn darparu ateb wrth gefn graddadwy ar gyfer deunyddiau anodd eu hailgylchu na ellir eu casglu'n hawdd gan gynghorau lleol ac mae

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Boots yn gweithio mewn partneriaeth â manwerthwyr a brandiau eraill i hyrwyddo'r cynllun a chodi ymwybyddiaeth defnyddwyr.

Adran 3: Monitro a gwerthuso

Bydd y camau gweithredu allweddol a nodir yn y Cynllun hwn yn cael eu monitro i'w cwblhau a bydd tystiolaeth yn cael ei chasglu, gan ddefnyddio datganiadau swyddogol, tystiolaeth wedi'i chasglu gan y diwydiant ac ymchwil sylfaenol. Bydd y ffynonellau cyfun hyn yn ein helpu i asesu cynnydd. Bydd y Cynllun yn cael ei werthuso ar ôl dwy flynedd, gyda'r prif ffocws ar asesu a yw'r camau gweithredu allweddol yn cael eu cyflawni a'u heffaith, ac i lywio'r camau nesaf ar gyfer y sector.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod bylchau yn y data sydd ar gael ar lefel Cymru i alluogi dealltwriaeth lawn o'r holl themâu a drafodir yn y Cynllun, ac nad yw'n meddu ar yr holl ddulliau sydd eu hangen i wneud newid ar raddfa fawr. Mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio ar gamau gweithredu y gellir eu cyflawni drwy ddull partneriaeth gymdeithasol, er mwyn gwella profiad gwaith, cefnogi manwerthwyr, a chyfrannu at gydnheredd y sector. Bydd yr adnoddau hyn ynghyd â mathau eraill o dystiolaeth yn cyfrannu at gefnogi ein gallu i werthuso effaith y Cynllun.

Pobl:

Un o'r mesurau allweddol ar gyfer Pobl yn y sector yw cyflogaeth. Mae'r mesur lefel uchel hwn yn dangos faint o bobl sy'n gyflogeion neu'n hunangyflogedig yn y sector. Mae'r data presennol ar gyfer 2021 yn dangos bod 139,000 (Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES) 2021) wedi'i cyflogi ym maes manwerthu, sy'n fwy nag ym maes gweithgynhyrchu yng Nghymru (137,000). Roedd y rhan fwyaf (58%) o bobl yn gweithio ym maes manwerthu yn weithwyr

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

rhan-amser. Mae cyflogaeth yn y sector hefyd wedi bod yn tyfu, gyda chynnydd o 15.8% ers 2020 a chynnydd o 10.3% ers 2019.

I ategu cyflogaeth, gellir defnyddio enillion cyfartalog. Y dull mesur safonol er mwyn cymharu enillion o waith yw enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrifol) ar gyfer cyflogeion amser llawn. Roedd hyn yn £433.4 yn 2022, i fyny 5.0% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd enillion wythnosol gros gweithwyr amser llawn yn y sector manwerthu yng Nghymru ar gyfer 2022 yn uwch nag yn y Celfyddydau, adloniant a hamdden (£410.0) a gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd (£412.2). Fodd bynnag, mae'n is nag Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (£496.8), Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth (£515.0) a Gweithgynhyrchu (£632.7).

Yn 2022, amcangyfrifwyd bod 32,800 o bobl yng Nghymru a oedd yn 18 oed neu'n hŷn, mewn cyflogaeth ar gontractau parhaol, neu ar gontractau dros dro ac nad oeddent yn chwilio am waith parhaol a oedd yn ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol (£10.90) (Yn seiliedig at ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth (APS) ym maes manwerthu. Amcangyfrifir bod hyn tua thraean (33.4%) o'r bobl sy'n gweithio ym maes manwerthu yng Nghymru. Roedd cyfran gyfatebol y DU o'i gweithlu manwerthu a oedd yn ennill o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol ychydig yn uwch, sef 40.1%.

Ymchwilir i fesurau eraill sy'n ymwneud â Phobl er mwyn eu defnyddio mewn diweddariadau i'r cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys cyflogaeth y sector yn ôl rhywedd, a dwysedd, presenoldeb a chwmpas undebau llafur.

Lle:

Un mesur allweddol o werth economaidd y sector yw Gwerth Ychwanegol Gros (GVA). Dyma yw allbwn y sector mewn gwirionedd, heb gynnwys gwerth y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwyd i mewn. Mae felly'n dangos y gwerth ychwanegol y mae'r sector yn ei ddarparu. Roedd gwerth ychwanegol gros y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

sector manwerthu yng Nghymru yn £3,955m yn 2021, i fyny 8.0% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond i lawr 0.3% ers 2019. Mae hyn yn cynrychioli 5.7% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros yng Nghymru, cyfran gymharol fwy nag yn yr Alban (5.2%) a'r DU (5.0%).

Mesuriad arall o fanwerthu y gellir ei olrhain yw nifer y mentrau gweithredol. Mentrau gweithredol yw'r mentrau hynny a oedd â throsiant neu gyflogaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cyfeirio. Yn gyffredinol, mae nifer cynyddol yn adlewyrchu bywiogrwydd economaidd cymharol ac entrepreneuriaeth sector. Roedd nifer y mentrau gweithredol yng Nghymru yn 9,870 (Nid yw hyn yn cynnwys mentrau heb gynlluniau Talu Wrth Ennill neu sydd â throsiant sy'n is na'r trothwy TAW) yn 2021, cynnydd o 5.6% (525) o gymharu â 2020. I olrhain sut mae'r sector yn ymdopi, a pham y gallai nifer y busnesau gweithredol fod yn newid, gellir dangos mesurau atodol fel nifer y busnesau sy'n dechrau ac yn dod i ben. Mae'r rhain yn dangos bod busnesau sydd wedi dechrau mewn manwerthu yn 1,540, sy'n gynnydd o 35.7% (405) o gymharu â 2020. Roedd 1,010 o fusnesau wedi dod i ben, i lawr 5.2% (55) yn 2020. Mae'n bosibl bod y nifer o fusnesau'n dechrau yn 2021 yn llawer uwch na 2020, sydd o bosib yn adlewyrchu'r ffaith y gallai 2020 a 2021 fod wedi bod yn gyfnod anarferol i'r economi. Bydd y duedd hon yn cael ei monitro mewn diweddariadau pellach.

Mesurau eraill yr ymchwilir iddynt i ategu'r gwaith o fonitro'r cynllun gweithredu manwerthu fydd cyfran y busnesau sy'n microfusnesau/busnesau bach a chanolig, eu cyflogaeth a'u trosiant, yn ogystal â graddfeydd meddiannaeth a nifer yr ymwelwyr.

Cydnerthedd:

Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau o dan Cydnerthedd yn fwy ansoddol eu natur ac felly nid ydynt yn addas i gael eu cynrychioli gan ddata. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud gwaith i geisio helpu i archwilio llinell sylfaen y sector manwerthu neu sut mae'n ymdopi o ran ein camau

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cydnherthedd.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y gallu i ddangos Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl sector. Os bydd y gwaith hwn yn llwyddiannus, yna gallai diweddariad i'r cynllun hwn gynnwys nwyon tŷ gwydr y sector manwerthu. Ar ben hynny, bydd Llywodraeth Cymru o bosibl yn ceisio cynnal rhagor o ymchwil gyda'r bwriad o roi mwy o wybodaeth am y camau gweithredu a'r materion y tynnwyd sylw atynt o dan y golofn Cydnherthedd.

Siop a Swyddfa Bost Dinbych-y-pysgod (Tenby Stores and Post Office): Cefnogi eu Cymuned

Mae Fiona a Vince Malone yn rhedeg Siop Dinbych-y-pysgod ac yn ymgorffori'r cyfraniad y mae manwerthwyr bach yn ei wneud mewn cymunedau ledled Cymru. Mae siopau cyfleustra yng Nghymru wedi buddsoddi dros £38 miliwn bob blwyddyn i wella eu siopau. Cymerodd Fiona a Vince yr awenau yn 2015 gan fuddsoddi'n gyson yn yr amrywiaeth o wasanaethau a oedd ar gael, gan symud o Swyddfa'r Post ar ei phen ei hun i siop gyfleustra llwyddiannus.

Maent yn cyflogi 14 o bobl o'r gymuned leol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol gan gynnwys bwyd ffres gan gyflenwyr lleol. Swyddfa Bost Siop Dinbych-y-pysgod yw'r prif gyfrwng i'r gymuned gael gafael ar wasanaethau bancio a gwasanaethau pwysig eraill fel casglu parseli.

Mae 81% o siopau hwylus yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ledled Cymru ac mae Siop Dinbych-y-pysgod yn arwain y ffordd. Mae siop Fiona a Vince wrth galon y gymuned, a ddangosir gan eu cefnogaeth i amrywiaeth o elusennau lleol. Maen nhw'n mynd yr ail filltir i'w cwsmeriaid drwy gynnig danfon nwyddau i gwsmeriaid agored i niwed, darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddementia i'w staff ac maen nhw wedi codi arian er mwyn i'r gymuned allu cael gafael ar ddiffibriliwr.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/cydweithio-er-budd-manwerthu-cynllun-gweithredu-fforwm-manwerthu-cymru-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).